

Hysbysiad Preifatrwydd - Darpariaeth gwasanaeth ar gyfer plant, pobl ifanc, teuluoedd ac oedolion

Mae'r hysbysiad hwn yn egluro pa wybodaeth mae'r Cyngor ei hangen er mwyn prosesu ceisiadau am anghenion gofal a chymorth i ddiwallu swyddogaethau cyhoeddus a gofynion statudol. Mae ei hangen er mwyn i'r Cyngor gasglu, storio a phrosesu gwybodaeth bersonol er mwyn darparu ei wasanaethau. Mae'r Cyngor yn rhoi mesurau ar waith i warchod preifatrwydd unigolion ym mhob rhan o'r broses.

Pwy sy'n gyfrifol am eich gwybodaeth?

Caiff pob gwybodaeth bersonol ei dal a'i phrosesu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn unol â deddfwriaeth Diogelu Data. I gael gwybodaeth am rôl y Rheolydd Data, y Swyddog Diogelu Data a manylion cyswllt y Cyngor, edrychwch ar y dudalen 'Diogelu Data' ar wefan y Cyngor:

<https://blaenau-gwent.gov.uk/en/Council/data-protection-foi/data-protection-act/>

Pa wybodaeth ydyn ni ei hangen?

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn casglu gwybodaeth bersonol amdanoch chi, ac os oes angen, eich teulu a phartion eraill. Bydd yr wybodaeth yma'n cynnwys:

- Manylion amdanoch chi, fel eich enw, dyddiad geni, rhyw, statws anabledd, cyfeiriad, rhif ffôn, cyfeiriad e-bost, dyddiad geni;
- Gwybodaeth berthnasol eraill sydd ei hangen i brosesu eich cais, fel disgrifiad o'r gwasanaeth sydd ei angen:

- Gwybodaeth ariannol
- Gwybodaeth am ffordd o fyw
- Cofnodion meddygol
- Gwybodaeth addysgol gan ysgolion
- Cofnodion Gofal Cymdeithasol ac Iechyd
- Cofnodion contract a chyflogaeth
- Cofnod DBS
- Record droseddol
- Cyfeiriad IP
- Data biometrig

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth yma i brosesu eich cais a/neu weinyddu y camau sydd eu hangen. Gallwn wirio peth o'r wybodaeth gyda ffynonellau eraill i sicrhau fod yr wybodaeth yr ydych wedi ei rhoi yn gywir.

Pam ein bod angen eich gwybodaeth?

Mae'r Cyngor angen yr wybodaeth er mwyn darparu'r gwasanaethau yr ydych yn gofyn amdanynt ac i gyflawni ei swyddogaethau statudol.

Gyda phwy fyddwn ni'n rhannu eich gwybodaeth?

I alluogi'r Cyngor i brosesu eich cais a chydymffurfio gyda'n gofynion cyfreithiol, byddwn yn rhannu eich gwybodaeth gyda sefydliadau partner yn cynnwys:

- Yr Adran Gwaith a Phensiynau ac adrannau eraill y Llywodraeth;
- Asiantaeth yr Amgylchedd;
- Heddlu Gwent;
- Darparwyr gofal cymdeithasol;
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan;
- Llywodraeth Cymru;
- Archwilwyr;
- Rheoleiddwyr allanol.

Dim ond ar gyfer diben cyflawni unrhyw un o'i ddyletswyddau gorfodaeth statudol y bydd y Cyngor yn defnyddio'r wybodaeth. Bydd yn gwneud unrhyw ddatgeliad y mae'n ofynnol gan y gyfraith iddo eu gwneud a gall hefyd rannu'r wybodaeth yma gyda chyrrff eraill sy'n gyfrifol am ganfod/atal twyll neu archwilio/weinyddu cyllid cyhoeddus

Llywodraeth Cymru

Caiff peth o'r wybodaeth a gadwir amdanoch ei rhannu gyda Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn eu helpu i gynnal ymchwil y gofal a'r gefnogaeth a roddir i chi a phobl eraill yng Nghymru i helpu gyda chynllunio gwasanaethau ac i fesur pa mor dda y caiff gwasanaethau eu darparu fel y gellir eu gwella. Caiff yr wybodaeth hon ei rhannu'n gyfreithlon a bydd Llywodraeth Cymru yn ei defnyddio ar gyfer ymchwil i gefnogi busnes swyddogol.

Caiff yr wybodaeth a gaiff ei rhannu gyda Llywodraeth Cymru ei rhannu a'i chadw'n ddiogel. Dim ond dan fesurau rheoli gofalus y caiff byth ei rhannu gydag eraill, er mwyn sicrhau mai dim ond yn y ffordd a restrir uchod y caiff ei defnyddio.

I gael disgrifiad llawn o'r wybodaeth a gaiff ei rhannu gyda Llywodraeth Cymru, eich hawliau a'r wybodaeth berthnasol a chwynion, defnyddiwch y ddolen islaw:

<http://gov.wales/statistics-and-research/local-authority-social-services-data-collections/?lang=en>

Mae mwy o gyngor ac arweiniad ar y GDPR ar gael ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: www.ico.gov.uk.

Beth yw'r sail cyfreithiol ar gyfer prosesu?

Er mwyn cydymffurfio gyda'r GDPR, dim ond lle cyflawnir amod dan erthygl 6 y ddeddfwriaeth y caiff data personol ei brosesu.

Yn yr achos hwn, gallaf gadarnhau mai'r sail cyfreithiol ar gyfer prosesu yw:

- Rhwymedigaeth cyfreithiol sy'n ei gwneud yn ofynnol i ni brosesu eich gwybodaeth bersonol
- Cyflawni tasg gyhoeddus, er enghraifft cyflawni ein rôl diogelu neu swyddogaeth cynllunio neu wasanaethau gwastraff

Os ydych wedi rhoi caniatâd i ni ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol, mae gennych hawl i'w ddiddymu ar unrhyw amser. Os ydych eisiau diddymu eich caniatâd, cysylltwch os gwelwch yn dda â DataProtection@blaenau-gwent.gov.uk a dweud wrthym pa wasanaeth rydych yn ei ddefnyddio fel y gallwn drin eich cais.

Pa mor hir fyddwn ni'n cadw eich gwybodaeth?

Dim ond cyhyd ag sydd angen y bydd y Cyngor yn cadw eich gwybodaeth. Gellir cael manylion llawn am ba mor hir y bydd y Cyngor yn cadw eich gwybodaeth drwy gysylltu â'r Adran berthnasol sy'n gyfrifol am y gwasanaethau rydych eu hangen. Canolfan gyswllt y Cyngor: info@blaenau-gwent.gov.uk / 01495 311556.

Rhoi gwybodaeth gywir

Mae'n bwysig ein bod yn cadw gwybodaeth gywir a chyfredol amdanoch er mwyn asesu eich anghenion a darparu'r gwasanaethau priodol. Os oes unrhyw rai o'ch manylion wedi newid, neu y byddant yn newid yn y dyfodol, gofynnir i chi sicrhau eich bod yn dweud wrthym cyn gynted ag sy'n bosibl fel y gallwn ddiweddarau eich cofnodion.

Gwneud penderfyniadau awtomataidd

Mae rhai penderfyniadau yn seiliedig ar gyfrifiadur gan fod y Cyngor yn defnyddio systemau awtomataidd i gefnogi ei wasanaethau. Os caiff eich data personol ei brosesu drwy ddulliau awtomataidd, cewch eich hysbysu am y canlyniadau a chrynodeb o'r meini prawf a ddefnyddir yn y broses. Mae'r canlyniadau yn amodol ar benderfyniad terfynol gan y rheolwr gwasanaeth perthnasol.